Côr Meibion Dwyfor

Yn Dathlu 25

Noson Lawen ym Mart Bryncir

14 Mehefin 2013

PRINCIPALITY
BUILDING SOCIETY

Gair gan Y Côr

Mae Côr Meibion Dwyfor yn ystyried y noson hon yn garreg filltir nodedig yn ei hanes, ac yn dymuno nodi rhai pethau a ystyrir yn bwysig yn ein golwg. Ond cyn i ni gyfeirio at unpeth arall caniatewch i ni gofnodi ein diolch i'r gymuned fawr ohonoch, yn gyfeillion personol, yn gyfeillion i'r Côr, yn gefnogwyr ac yn gynulleidfaoedd gwerthfawrogol am eich cefnogaeth i ni gydol y blynyddoedd. Yr ydym yn falch o'ch cyfraniadau chi bob amser.

Wrth ddathlu mae na hefyd, yn anochel, gofio. Ac mi ddymunwn wneud hynny trwy nodi nad â yr un o'n cyn-aelodau a gollwyd yn ystod y blynyddoedd yn angof, ac yn aml iawn, mewn ymarfer, cyngerdd neu sgwrs fe gofir am dreialon a chyfeillgarwch. Mae cyfraniad pob un ohonyn nhw yn rhan o hanes a stori Meibion Dwyfor.

Fel aelodau, mae ein diolch ni i Buddug ac Alison am eu llafur a'u dyfalbarhâd yn un cynnes a diffuant. Yr ydym yn hynod ffodus o'r ddwy ohonynt, nid yn unig oherwydd eu doniau cerddorol ond am ymwneud â ni yn ysbryd y gymdeithas a ddatblygodd rhyngom i gyd. Maen nhw'n deall yr hogia yn dda iawn!

A fynnen ni ddim, wrth gwrs, beidio â chyfeirio at artistiaid y noson. Ble arall y caech chi'r fath gasgliad o ddoniau ond yn Y Mart! A doedd na unlle arall y medrem ni mewn gwirionedd fod wedi meddwl am gynnal y Noson Lawen ond yn ei chartref naturiol. Does dim angen torri ar draddodiad bob amser. Ac wrth gwrs, diolch o waelod calon i chi, artistiaid, am wneud y dathliad yma yn un mor gofiadwy.

Gan fod Ambiwans Awyr Cymru yn elusen mor arbennig, a bo gan Bryn a Rhys gysylltiad mor agos â hi, ein dymuniad eleni ydi cyflwyno rhan o elw'r Noson Lawen i'r elusen hon a hynny er cof am Melfyn, tad Eifion, un o'r aelodau gwreiddiol, a fu'n gymaint rhan o'r Côr ar hyd y blynyddoedd. Yr ydym yn falch o'r cyfle i fedru gwneud hyn.

Ac i gloi, gobeithio'n arw y byddwch fel cynulleidfa yn mwynhau cymaint eleni fel y dewch chi eto'r flwyddyn nesaf. Mi fydd y croeso yr un mor gynnes i chi bryd hynny.

D.G.Jones (Selyf)
Llywydd Anrhydeddus y Côr

Fydda na ddim Meibion Dwyfor heb y gŵr hwn a'i ddiweddar briod, Vera Jones.

Fe nodwn hefyd gyfnodau Gerallt ac Alun, y meibion, yn eu tro fel arweinyddion.

Dyna'r gwreiddiau a'r sylfeini.

"Yr oedd sawl un wedi gofyn i mi sefydlu Parti Cerdd Dant yn yr ardal," meddai D.G.Jones (Selyf), "ond penderfynu gwneud hynny at Steddfod Bro Dwyfor wnes i. I Melfyn, Hendre Cennin, y gofynnais i gyntaf un, ac yn fuan iawn mi ddaeth yr un ar bymtheg gwreiddiol at ei gilydd yn festri Capel Jerusalem, Garn, i roi cychwyn arni. Cyn hynny, mi oedd gen i barti bach o tua dwsin o hogia ysgol a choleg a gafodd gyfle i gynrychioli'r ardal yn seremoni gwahodd y Genedlaethol i Fro Dwyfor. Ar lwyfan Bro Myrddin yn 1974 y canodd y parti bach gyntaf, ac ail-adrodd hynny ar lwyfan Bro Dwyfor yn 1975 yn y seremoni agoriadol ac yna wedyn wrth agor Y Babell Lên. Mi ddaeth y parti bach a Meibion Dwyfor at ei gilydd yn y Gwasanaeth Boreol i ganu gosodiad o *Salm 84.*

Ar gyfer y gystadleuaeth i bartïon Cerdd Dant mi o'n i wedi gosod emyn Robert ap Gwilym Ddu *Mae'r gwaed a redodd ar y groes* a *Cherdd Goffa Llyfni Hughes* gan John Llywelyn Roberts. Wrth feddwl yn ôl, mae'n siŵr gen i bod Meibion Dwyfor wedi canu'r gosodiadau yna sawl tro, yn enwedig felly'r Salm!"

Ian Jones – Llywydd y Noson Lawen eleni

Mae Ian wrth gwrs yn fab i Robin, un o aelodau gwreiddiol Meibion Dwyfor. Mi ddilynnodd Ian ei dad a dod atom yn aelod am rai blynyddoedd, a bu'n ysgrifennydd y Côr am gyfnod. Yr ydym yn falch ei fod wedi derbyn ein gwahoddiad i fod yn Llywydd y noson oherwydd ei gysylltiad amlwg â'r Côr ei hun yn ogystal â'i gysylltiad mwy personol a'i gyfeillgarwch efo Bryn, Eifion a Rhys.

"Pan fydda i'n meddwl am "Y Meibs" mi fydd na wên yn lledu ar draws fy wyneb ac atgofion melys yn dod i'r meddwl," meddai Ian. "Dwi'n cofio'r canu, yr hwyl a'r tynnu coes. Mae'n anodd credu bod yna gymaint o flynyddoedd wedi mynd heibio ers i Tudur a minnau neud y sgets yn y noson lawen gyntaf yn Y Mart.

Ac y mae'n bleser mawr bod yn rhan o'r achlysur heno fel Llywydd."

Maldwyn Williams

Maldwyn ydi Cadeirydd y Côr ar hyn o bryd. Mae o'n aelod ers sawl blwyddyn bellach.

"Braint i mi ydi bod yn Gadeirydd y Côr ym mlwyddyn y dathlu yma," meddai Maldwyn. "Mae'r holl gysylltiadau sydd gennym fel Côr yn niferus iawn, a diolch yn arbennig i'r artistiaid gwadd am ddod atom.

Rwy'n teimlo'n ffodus mod i'n aelod o'r gymdeithas yma ag ydi Côr Meibion Dwyfor. Mi ydw i wedi elwa'n bersonol o brofiad y blynyddoedd ac yn ddiolchgar i arweinyddes a chyfeilyddes y Côr am eu gwaith a'u hymroddiad yn ogystal â'r cyn-arweinyddion a'r cyn-gyfeilyddion. Diolch hefyd i bob un o fy nghyd-swyddogion ac i'n cyfeillion a'n cefnogwyr. Mwynhewch noson arbennig y dathlu efo ni."

Buddug Roberts

Buddug ydi arweinyddes y Côr ers 1994. Cyn hynny bu'n cyfeilio i'r Côr.

"Mae Côr Meibion Dwyfor yn rhan bwysig iawn o mywyd i ers dros ugain mlynedd bellach," meddai Buddug. "Melfyn Henre Cennin ofynnodd i mi ddod i gyfeilio yn ystod un o nosweithiau Cylchwyl Glannau Dwyfach. Mi fues yn cyfeilio yno fwy nag unwaith.

Ar ôl dod at y Côr fuo mywyd i byth run fath wedyn!

Heblaw'r canu ei hun mae'r ymarferion wythnosol yn Ysgol Y Garn yn gyfle i fwynhau cwmni difyr, direidus a chartrefol yr hogia i gyd.

Rwy'n edrych ymlaen at y Noson Lawen unigryw yma yn arw iawn ac yn ddiolchgar i'r artistiaid i gyd am gytuno i ddod. Mi fydd hi'n braf cael cyd-berfformio efo Bryn ac Eifion a oedd yn gyd-ddisgyblion efo fi yn Ysgol Dyffryn Nantlle. A braf hefyd fydd cael cwmni Rhys, Alys ac Annette yn ogystal."

Alison Edwards

Alison ydi cyfeilyddes y Côr ers sawl blwyddyn bellach.

"Mi ydw i wedi ennill hyder fel unigolyn ac fel cyfeilyddes ers i mi gychwyn cyfeilio i'r Côr," meddai Alison, "ac wedi cael llawer o brofiadau amrywiol. Yn ystod rhyw gyda'r nos allan yng Nghaernarfon y gofynnodd Buddug i mi a fuaswn yn cysidro bod yn gyfeilyddes i Feibion Dwyfor. Mi ydw i'n cofio'r eiliad yna fel ddoe.

Un peth nad ydw i ddim yn ei hoffi efo'r Côr ydi cyfeilio mewn cyngherddau ar allweddellau – llawer gwell gen i biano.

Mae'n rhaid i mi ddweud mod i'n mwynhau pob dim arall!"

Bryn Terfel

"O'r Met i'r Mart," chwedl Bryn ei hun.

" Mae bod yn rhan o'r Noson Lawen yma yn gyfle i mi gyflwyno ngwerthfawrogiad a fy niolch am gyfle i gydnabod fy nghysylltiad â'r Côr," meddai Bryn.

"Y nhw oedd yn gyfrifol am ddenu mab fferm o Bant-glas pan oedd o'n ddeuddeg oed i fod yn unawdydd efo nhw mewn cyngerdd. Ond cofiwch, efallai mai Selyf oedd yn bennaf gyfrifol gan mod i'n ddisgybl iddo ers pan o'n i'n wyth oed. Cyngerdd yn Sarn ydi'r atgof cyntaf sydd gen i, Vera Jones yn cyfeilio ac Alun Llwyd ar y delyn. A childwrn o £5 am fy ngwaith caled!

Roedd cyngherddau'r ddwy noson yn Engedi yn gofiadawy a dwi'n cofio hefyd recordio rhaglen deledu efo'r Côr yn Theatr Seilo pan oedd Jac Williams (J.G.Williams, awdur *Pigau'r Sêr*) yn cael ei gyfweld. Dyna droed yn y byd recordio teledu.

Fy nghysylltiad cyson efo'r Côr ers blynyddoedd bellach ydi'r darnau newydd y byddan nhw'n eu dysgu oherwydd mi fydda i'n recordio lein y baswyr i Nhad ar dâp ac yn cadw llygad ar restr y caneuon gan Buddug.

Diolch hogia am fy ngwahodd i'r Mart. Mae'r cylch yn gyflawn."

John Eifion Jones

Mae cysylltiad holl deulu Hendre Cennin â'r Côr yn un o'r rhesymau pam y llwyddwyd i gynnal nifer o nosweithiau llawen a chyngherddau heb orfod gwahodd neb arall i ddod atom. Mae dyled y Côr iddyn nhw yn sylweddol.

"Mae Meibion Dwyfor wedi bod yn rhan o mywyd i mewn rhyw ffordd neu'i gilydd ers 1975," meddai Eifion. "Dwi'n cofio'n rhieni yn mynd i gyngherddau'r parti a chefais innau gyfle i ganu sawl tro, fel arfer efo Bryn.

Mae gen i gof clir iawn am fis Medi 1987 pan alwodd Gwilym Meirion heibio Hendre Cennin yn ei lifrau glas a gofyn i mi ddod yn arweinydd Meibion Dwyfor. Yn y bôn, doedd hi ddim yn bosib gwrthod efo Nhad un ochr i mi yn hollol siŵr bod y syniad yn un da a Gwilym yr ochr arall yn defnyddio'i sgiliau a'i dactegau perswadio chwedlonol.

Dau beth wnaethom ni benderfynu ei wneud oedd chwyddo rhengoedd y parti yn raddol a threfnu'r gyntaf o'r nosweithiau llawen blynyddol yn Y Mart.

Bu'n bleser arwain y Côr am nifer o flynyddoedd yn cynnwys teithiau i'r Iwerddon a'r Alban.

Heblaw llwyddiannau eisteddfodol a chyngherddau da mae yna rai pethau na wna i byth anghofio fel fy Nhad a Dewi yn chwerthin drwy chwe phennill o gywydd wrth i ni ganu ar ben trelar mewn Noson Lawen ym Machynlleth. Dirdynnol i mi!"

Rhys Meirion

Pleser mawr i ni ydi cael cwmni
Rhys Meirion unwaith eto.

"Hogyn yn yr ysgol gynradd o'n i ar y pryd ond dwi'n cofio'n dda mynd efo Nhad, Gwilym Meirion, i ragbrawf y Partïon Cerdd Dant ym Mro Dwyfor yn 1975," meddai Rhys. "Mi o'n i wedi cyffroi'n arw bod fy Nhad yn aelod o Barti Meibion Dwyfor.

Yn ystod y dyddiau cynnar yma y dois i'n ffrindiau efo John Eifion a Bryn Terfel.

Dwi'n cofio hefyd y Noson Lawen a gynhaliwyd yn y sied fawr yng Nghoed-cae-du a Charles Williams yn arwain. Mi oedd hynny cyn dyddiau'r Noson Lawen yn Y Mart. Ac mi ydw i'n cofio'r rheiny'n dda, a braf oedd derbyn gwahoddiad i ganu yn un ohonyn nhw yn fuan ar ôl i mi ennill Y Rhuban Glas yn Y Genedlaethol yn 1996."

Alys Mererid Roberts

Ar hyd y blynyddoedd yr ydym wedi rhoi llwyfan i artistiaid lleol berfformio efo'r Côr yn Y Mart. Tro Alys ydi hi eleni, a hynny ar gais Bryn.

Soprano dwy ar hugain oed o Ros-lan ydi Alys, newydd raddio mewn Saesneg a Cherdd ym Mhrifysgol Durham. Ers pan oedd yn ddim o beth bu'n canu ar lwyfannau eisteddfod a chyngerdd, ac erbyn hyn y mae hi a'i bryd ar fynd yn gantores broffesiynol. Mae wrth ei bodd yn canu mewn operâu a bydd yn chwarae rhan Nancy yng nghynhyrchiad Academi Samling yn y Sage yn Gateshead o'r opera *Albert Herring* gan Benjamin Britten ddiwedd yr Haf eleni.

Fis Medi, bydd Alys yn mynd yn ei blaen i astudio cwrs MA mewn canu yn Yr Academi Frenhinol yn Llundain. Dymunwn y gorau iddi.

"Rwy'n teimlo'n freintiedig tu hwnt mod i'n cael rhannu llwyfan efo talentau neilltuol Eifionydd," meddai Alys, "ac mi fydda i'n siŵr o gofio'r profiad am amser maith."

Annette Bryn Parri

Mae'n bleser mawr i'r Côr gael y cyfle unwaith eto i wahodd Annette atom i'r Noson Lawen. Bu efo ni sawl tro yn cyfeilio i unawdwyr talentog a hwythau yn eu tro yn talu'r deyrnged uchaf iddi hithau am ei dawn wrth y piano.

"Dwi'n cysylltu Buddug nid yn unig efo'r Côr ond efo Ysgol Y Gelli yn ogystal," meddai Annette. "Bu'n bleser cael y cyfle i gyfansoddi a threfnu caneuon ar ei chyfer.

Mae gwreiddiau Alison, fel fy rhai innau, yn Nyffryn Peris. Mi fues i'n rhoi gwersi piano iddi pan oedd hi yn ei harddegau, a dwi'n ei hadnabod yn dda.

Mewn cyngherddau ac eisteddfodau y dois i adnabod Alys, ac edmygu ei llais.

Mae fy adnabyddiaeth o Bryn ac Eifion yn mynd nôl i ddyddiau ysgol yn Nyffryn Nantlle a Brynrefail ac yna wrth gwrs cael y fraint o gyfeilio i'r ddau yng Nghymru a thu hwnt sawl tro.

Mi fydda i'n cysylltu tri pheth efo Rhys : Gŵyl Gobaith, cyngherddau i gofio David Lloyd a Cerddwn Ymlaen (taith gerdded uchelgeisiol gyda chyngherddau'n cael eu cynnal yn ystod y daith.) Gallaf nodi'n falch mod innau wedi bod yn rhan o lwyddiant y digwyddiadau yma."

Dyma'r unig aelod o'r un ar bymtheg gwreiddiol sy'n dal i ganu efo'r Côr.

Mae cysylltiad teulu Robin efo'r Côr wedi bod yn un arwyddocaol iawn ar hyd y blynyddoedd. Bu Ian, y mab, yn aelod ac yn Ysgrifennydd am gyfnod, a bu Linda, ei ferch ieuengaf yn gyfeilyddes am bedair blynedd.

"Atgofion pleserus iawn sydd gen i am yr holl flynyddoedd," meddai Robin, "a hynny o'r cychwyn cyntaf pan aem ni'n llond pedwar car fwy na heb i gadw cyngherddau. Roedd y gymdeithas gynnar yna fel un teulu mawr. Ac er bod y Côr a'r gymdeithas wedi gorfod datblygu a newid, mae'r agosatrwydd a'r cyfeillgarwch yn dal yna. Ac mi ydw i'n falch iawn o hynny.

Yn nyddiau'r Parti, mi oeddan ni'n rhai garw am gystadlu ac mae gen i gasgliad go dda o osodiadau Dafydd ac Alun a gyfansoddwyd ar gyfer y gwahanol wyliau cenedlaethol.

Dwi'n cofio'n dda mynd efo'r Parti am y tro cyntaf i Killarney yn 1980 ar gyfer yr Ŵyl Ban-geltaidd. Pan gerddon ni ar y llwyfan mi ddechreuodd y gynulleidfa gymeradwyo, a chymeradwyo y buon nhw am un pum munud, a hynny cyn i ni ganu nodyn. Dydw i ddim yn cofio sut gymeradwyaeth gawson ni ar ôl i ni ganu!"

Gwilym Meirion Jones

Mae Gwilym yn un o'r aelodau gwreiddiol ac ef oedd Ysgrifennydd y Côr pan drefnwyd y Noson Lawen gyntaf yn Y Mart ym 1988. Fe ddaliodd at y cyfrifoldeb yma o dan oruchwyliaeth pedwar o arweinyddion sef Selyf, Gerallt, Alun ac Eifion.

"Gweledigaeth Alun Watkin oedd cynnal y Noson Lawen yn Y Mart ym Mryncir. Roedd o'n gweithio ar y pryd fel gwerthwr ceir yn y garej ar draws y ffordd, a sawl tro y clywais i Melfyn yn sôn am drafodaethau'r cyfnod yna," meddai Gwilym.

"Mi fues i'n aelod o Feibion Dwyfor am 35 mlynedd ond bu raid i mi roi'r gorau iddi oherwydd anhwylder lleisiol. Mi fedra i nodi'n hollol onest y bu'r cyfnod yma yn fy mywyd yn un amhrisiadwy, a wna i byth anghofio'r gwmnïaeth a'r brawdgarwch arbennig.

Mi ydw i'n ei theimlo'n fraint bod Dafydd Jones wedi fy ngwahodd i fod yn aelod o'r parti gwreiddiol, ac ymysg yr hyn y bydda i'n ei gofio fydd canu ei berl o osodiad o *Salm 84*."

Enwau'r swyddogion o'r cychwyn

Cadeirydd
Tecwyn Jones
Owi Williams
Melfyn Jones
Wyn Bellis Jones
Gwyn Jones
Geraint Lloyd Jones
Llewelyn Evans
Ifan Glyn Jones
Thomas Prys Jones
John Gwynant Hughes
Maldwyn Williams
(Deiliaid presennol y swyddi)

Ysgrifennydd
Edwin Pritchard
Gwilym Meirion
Ian Jones
Emlyn Jones
Ifan Hughes

Trysorydd
E.P.Owen
Robin Jones
Philip George

Yr arweinyddion o'r cychwyn

Arweinydd	Cyfnod
D.G.Jones (Selyf)	1975 - 1980
Gerallt Jones	1980 - 1982
Alun Llwyd	1982 - 1987
John Eifion Jones	1987 - 1994
Buddug Roberts	1994 -

Y cyfeilyddion o'r cychwyn

Cyfeilydd	Cyfnod
Vera Jones	1975 - 1987
Linda Edwards	1987 - 1991
Helen Medi	1991 - 1993
Buddug Roberts	1993 - 1994
Iwan Ellis	1994 - 1995
Alison Edwards	1995 -

Yr un ar bymtheg gwreiddiol yn 1975

Tenoriaid
Melfyn Jones
Tecwyn Jones
Edwin Pritchard
Gwilym Meirion
Emyr Robinson
Robin Jones (Siop Eifionydd)
Huw Jones
John Bryn Williams

Baswyr
Alun Watkin
Owi Williams
Thomas Williams
Glynne Evans
Morris Roberts
E.P.Owen
Robin Jones (Cefn Cae'r Ferch)
Alun Jones



Y Noson Lawen 1af

Fe wnaed y poster yma gan Eddie Griffiths a oedd yn Bennaeth Celf yn Ysgol Eifionydd ar y pryd. Dipyn o gamp yn wir i unrhyw raglen gyfrifiadurol wella arno.

CANOLFAN DEFNYDDIAU ADEILADU

HUWS GRAY

BUILDING MATERIALS CENTRE

BUILDING MATERIALS • ROOFING MATERIALS • TIMBER
LANDSCAPING • BRICKS & BLOCKS • PLUMBING & HEATING

PWLLHELI

Glandon

01758 701 230

pwllheli@huwsgray.co.uk

PORTHMADOG

Parc Busnes Penamser

01766 515 800

porthmadog@huwsgray.co.uk

Canolfannau ledled Gogledd Cymru a thu hwnt

WWW.HUWSGRAY.CO.UK